
2025


# Pecyn Cynllun Cysgodi

## Gwobrau Tir na n-Og 2025

## Categori Uwchradd




# Cynnwys


**Llyfrau'r Rhestr Fer** 2

**Sbardun Sgwrs:** 3
*Cwestiynau a phwyntiau i sbarduno trafodaeth*

**Sbardun Syniadau:** 4
*Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg*

**Adnabod Awdur**
- Dafydd Watcyn Williams 7
- Myrddin ap Dafydd 8

**Adnabod Golygydd**
- Llŷr Titus 9
- Megan Angharad Hunter 10

**Adnabod Darlunydd**
- Mari Philips 11

**Y Beirniaid** 12


**Sylwadau'r Beirniaid** 13

**Tudalen Nodiadau** 16

**Matrics Sgorio** 17

**Cardiau Pleidleisio** 18






## Cynefin, Cymru a'r Byd


(Gwasg Carreg Gwalch)
**Awdur: Dafydd Watcyn Williams**

*Cyfeirlyfr   Llyfr Ffeithiol*
*Llyfr Gwybodaeth*

*Addas i ddarllenwyr 11+ oed*

Dechrau wrth ein traed ac ehangu gorwelion i bob cwr o'r Ddaear yw nod y gyfrol hon. Mae'n cynnwys holl elfennau Daearyddiaeth: nodweddion ffisegol, dinasyddiaeth a'r amgylchedd naturiol.

---




## Rhedyn, Merlyn y Mawn


(Gwasg Carreg Gwalch)
**Awdur: Myrddin ap Dafydd**

*Nofel*
*Ffuglen Hanesyddol*

*Addas i ddarllenwyr 11+ oed*

Dyma nofel am byllau glo ardal yr Wyddgrug yng nghyfnod Terfysg 1869, gan ddilyn merlyn a gaiff ei yrru o fynydd Hiraethog i weithio dan ddaear. Stori greadigol a thrawiadol iawn fydd yn apelio at unrhyw un sydd â diddordeb mewn hanes.

---




## Cymry Balch Ifanc (Rily)

**Golygyddion: Llŷr Titus a Megan Angharad Hunter**
**Darlunydd: Mari Philips**

*Blodeugerdd*
*Llyfr Ffeithiol*
*Hunangofiant*

*Addas i ddarllenwyr 11+ oed*


Blodeugerdd bersonol a gonest o straeon 14 o gyfranwyr LHDTCRA+ ynghyd â gwybodaeth ffeithiol am Pride Cymru. Mae'r gyfrol yn anelu at hybu dealltwriaeth ac empathi tuag at y gymuned LHDTCRA+ drwy rannu profiadau personol. Yn cynnwys arlunwaith trawiadol.

---

***Cofiwch fod rhai o'r llyfrau ar gael yn ddigidol fel e-lyfrau hefyd. Ewch i'ch siop lyfrau, llyfrgell leol neu i'n gwefan www.gwales.com i ddod o hyd i'r teitlau uchod ac am fwy o wybodaeth.***










## Cwestiynau a phwyntiau trafod i sbarduno trafodaeth


- Beth wnaethoch chi ei fwynhau am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn hawdd ac yn bleserus i'w ddarllen?
- Disgrifiwch eich hoff ran o'r llyfr. Pam mai dyna yw eich hoff ran?
- Oeddech chi'n hapus gyda diwedd y stori? Pam hynny?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gymeriad yn y llyfr, pa gymeriad fyddai hynny a pham?
- Beth wnaethoch chi ddim ei fwynhau am y llyfr?
- Pa gwestiynau oedd gennych chi am y stori wrth i chi ddarllen y llyfr? Gawson nhw eu hateb? Os do, sut?
- Ydych chi'n credu bod teitl y stori'n gweddu i'r stori? Pam hynny? Os na, beth fyddech chi'n galw'r llyfr?
- Oedd y llyfr yn wahanol i'ch disgwyliadau chi? Os felly, sut?
- Beth hoffech chi ei newid am y llyfr a pham? Sut basech chi'n ei newid?
- Hoffech chi ddarllen y llyfr eto? Pam hynny?
- Pa gwestiynau sydd gennych chi am y stori ar ôl gorffen y llyfr?
- Ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r llyfr yma ymhen ychydig fisoedd neu flynyddoedd? Pam hynny?
- Yn eich barn chi, a fyddai newid lleoliad neu gyfnod y stori'n effeithio arni? Ym mha ffordd?
- Beth yw eich barn chi am glawr y llyfr?
- Gan beth gawsoch chi eich synnu yn y llyfr yma? Ym mha ffordd?
- Gawsoch chi eich atgoffa o unrhyw lyfrau eraill, ffilmiau neu raglenni teledu wrth ddarllen y llyfr yma?
- Hoffech chi ddarllen mwy o lyfrau fel hyn? Pam hynny?
- Beth yw eich barn chi am y themâu sy'n cael eu trafod yn y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr yma'n addas?
- Petaech chi'n cwrdd â'r awdur, pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn iddo neu iddi?
- Petai tri chopi o'r llyfr gennych chi i'w rhoi yn anrhegion, i bwy fasech chi'n eu rhoi nhw a pham?
- Petai'r llyfr yn cael ei droi'n rhaglen deledu neu ffilm, pwy fasech chi'n castio yn brif gymeriadau? Pam hynny?
- Disgrifiwch y llyfr mewn brawddeg.
- Oes unrhyw beth hoffech chi ddysgu rhagor amdano ar ôl darllen y llyfr yma?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y stori?
- Petaech chi'n gallu bod yn y llyfr, pa ddigwyddiadau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw a pham?
- Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth trwy ddarllen y llyfr yma? Os ydych chi, beth?






## Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

***Cynefin, Cymru a'r Byd***
gan Dafydd Watcyn Williams




*Beth am ...*

### Creu

Beth am gasglu ffeithiol amrywiol o'r llyfr – a rhai eich hun – i greu cwis hwyliog i'r dosbarth? Gallwch chi gystadlu mewn timau a dewis rhywun i ofyn y cwestiynau.

### Chwarae rôl

Beth am chwarae rôl? Bydd angen i chi greu rhestr o gwestiynau wedi'u hysbrydoli gan y llyfr (neu adran benodol o'r llyfr), ac yna dewis un o'r cymeriadau dychmygol isod. Meddyliwch pa fath o bethau sy'n berthnasol a phwysig i'r bobl isod. Yna, bydd angen i chi eistedd yn y gadair boeth i ateb y cwestiynau!

Cymeriadau posib:
- Daearegwr
- Gwleidydd
- Perchennog busnes bach
- Ffermwr
- Dewiswch gymeriad

### Ysgrifennu

Mae'r llyfr hwn yn ffeithiol. Beth am ysgrifennu adolygiad creadigol yn ymateb i'r llyfr neu'n ateb un o'r cwestiynau isod:
- Beth sy'n gwneud Cymru'n unigryw?
- Beth mae'r gair 'cynefin' yn ei olygu i chi?
- Beth ydych chi wedi'i ddysgu o'r llyfr?


### Trafod

Beth am ddewis a defnyddio ffeithiau a gwybodaeth o rai tudalennau i'w trafod mewn grwpiau neu barau, neu beth am fynd ati i greu taflen / pamffled wybodaeth am ardal neu bwnc penodol o'r llyfr?












## Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

***Rhedyn, Merlyn y Mawn***
gan Myrddin ap Dafydd




### Beth am ...

**Ysgrifennu**

Beth am ddewis un elfen o'r nofel a mynd ati i ysgrifennu erthygl ar gyfer papur newydd lleol? Ceisiwch roi enw i'ch papur newydd sydd wedi'i ysbrydoli gan y nofel. Gallwch chi hefyd gynnwys llun i fynd gyda'ch erthygl.

**Creu**

Beth am greu Ffeil-o-Ffeithiau ar gyfer un o'r cymeriadau neu ar gyfer yr awdur, gan gynnwys o leiaf bum ffaith bwysig? Os ydych chi'n dewis yr awdur, cofiwch ddefnyddio ei broffil Adnabod Awdur yn y pecyn hwn i'ch helpu.

**Dylunio**

Beth am ddylunio bwrdd stori yn crynhoi prif ddigwyddiadau'r nofel? Gallwch chi gynnwys lluniau'n unig, neu ychwanegu geiriau yn debyg i arddull nofelau graffig.

**Ymchwilio**


Beth am wneud gwaith ymchwil i ddysgu mwy am hanes y pyllau glo yn ardal yr Wyddgrug? Oeddech chi'n gwybod unrhyw beth am Derfysgoedd 1869? Beth allwch chi ei ddarganfod? Neu, beth am wneud gwaith ymchwil am ardal yr Wyddgrug a'i hanes? Gallwch ddewis pynciau gwahanol a chreu cyflwyniad mewn grwpiau.






## Beth am ...? Syniadau i sbarduno'r dychymyg

***Cymry Balch Ifanc***
Llŷr Titus a Megan Angharad Hunter (gol.)




*Beth am ...*

### Dylunio

Beth am ddylunio diagram venn yn cymharu profiadau dau berson o'r gyfrol?

### Creu

Beth am greu wal graffiti (ar bapur)? Gallwch gynnwys themâu a theimladau'r cyfranwyr. Beth am ddefnyddio arddull y darlunydd, Mari Philips, i'ch ysbrydoli, neu'ch arddull eich hun?

### Ymchwilio

Beth am wneud gwaith ymchwil i ddarganfod mwy am enwogion (cyfoes neu hanesyddol) o Gymru sydd ddim yn y casgliad? Yna, gallwch greu proffil manwl iddyn nhw. Gallwch hefyd drafod sut ydych chi'n meddwl y byddai'r bobl yn ymateb i'r cwestiynau sydd yn y llyfr.


### Sgriptio

Beth am sgriptio cwestiynau cyfweliad ar gyfer rhaglen radio lle yr ydych chi'n cyfweld un o gyfranwyr y gyfrol? Gallwch recordio'ch sioeau radio ac ychwanegu effeithiau trwy ddefnyddio meddalwedd ar gyfrifiaduron.

# Dafydd Watcyn Williams










**Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr?**
Cyfeirlyfr ydi hwn – hynny yw, llyfr llawn ffeithiau diddorol. Gallwch ddarllen hwn adref neu yn yr ysgol, ac efallai y bydd modd gwneud pob math o weithgareddau yn seiliedig ar rannau ohono. Mae'n dechrau gyda sawl agwedd ar ein cynefin lleol. Wedyn mae'n ymestyn i sôn am dirwedd ac amgylchedd Cymru, a bywyd a gwaith y bobl sy'n byw yma. Mae hyn i gyd yn cael ei osod ochr yn ochr â gwledydd eraill y byd. Y peth pwysicaf ydi bod y llyfr yn edrych ar y daith i'r dyfodol wrth drafod y testunau hyn i gyd. Sut mae ein cynefin a'n gwlad heddiw yn mynd i effeithio ar sut fyd fydd gan genedlaethau'r dyfodol?


**Sut brofiad oedd ysgrifennu'r llyfr?**
Athro Daearyddiaeth oeddwn i am gyfnod. Wrth greu'r llyfr hwn, roedd Gwasg Carreg Gwalch wedi cysylltu gyda nifer o arbenigwyr yn y prifysgolion, athrawon ac addysgwyr. Roeddwn i'n ceisio arwain panel o ymgynghorwyr ac yn trafod trefn a datblygu cynnwys y penodau gyda'r wasg. Roedd yn brofiad diddorol iawn oherwydd roedd rhywbeth yn y newyddion bob wythnos yr oedd yn RHAID i ni ei gynnwys yn y llyfr! Does dim llyfr yr un fath â hwn wedi'i gyhoeddi o'r blaen ac roedd yn bleser casglu'r holl amrywiaeth at ei gilydd. Roedd angen cynllunio diagramau a graffiau, casglu lluniau o bedwar ban byd ac yna trafod golwg pob tudalen gyda'r dylunydd. Roedd cael barn athrawon a dysgwyr yn bwysig hefyd – roedden ni'n cysylltu'n gyson gydag ysgolion ym mhob rhan o'r wlad.

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Geni yn Llanidloes, Sir Drefaldwyn ac yna byw yn yr Wyddgrug am gyfnod.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Glanyrafon ac Ysgol Maes Garmon, yr Wyddgrug.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Dim cof am unrhyw beth penodol.

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?**
Unrhyw beth gan T. Llew Jones.




**Beth yw eich diddordebau?**
Pêl-droed – dilyn tîm Wrecsam ers bron i 60 mlynedd, a thîm Cymru. Cerdded mynyddoedd. Cadw trefn ar yr ardd.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Y Ffordd Beryglus* gan T. Llew Jones.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Twm Siôn Cati o'r llyfr uchod.

**Hoff le?**
Y Cae Ras.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Gan athrawon.

**Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Cyfoethogi gwybodaeth disgyblion am ddaearyddiaeth Cymru.

**Hoff fwyd?**
Cyrri.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
*Match of the Day.*

**Hoff air?**
Llonydd.


**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Llawer o bethau – rhy niferus i'w rhestru.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Wrecsam yn ennill.

# Myrddin ap Dafydd














**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Llanrwst, Dyffryn Conwy.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Llanrwst.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Cael stori ar ddiwedd pnawn oedd fy hoff beth i yn nosbarth y babanod, meddai fy hen athrawes – ro'n i'n swnian am stori o *Ein Hen, Hen Hanes* byth dragwyddol.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Mi ges i gyfnodau – cyfnod ffermwr, cyfnod glöwr a hyd yn oed cyfnod o eisiau bod yn dafarnwr.

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?**
Trioleg Twm Siôn Cati gan T. Llew Jones

**Beth yw eich diddordebau?**
Erbyn hyn: darllen, garddio, crwydro, beicio, gweithgareddau gyda'r wyrion.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Cwmni da.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Bod arfordir Llŷn – a'r rhan fwyaf o arfordir Cymru – yn eiddo i Goron Lloegr!

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Dechreuais i sgwennu llythyrau yn ifanc.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Gwrando ar bobl a darllen straeon hanes.

**Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Y bach yn cael cam, ond yn taro'n ôl ac yn cario'r dydd.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Sgwennu unwaith ac yna ailsgwennu'r cyfan eto.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Clywed bod rhywun yn darllen eich gwaith.

## Cwestiynau Cyflym:

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Y Ffordd Beryglus.*

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Twm Siôn Cati.

**Hoff le?**
Llwybrau Cymru.

**Hoff fwyd?**
Bwyd môr.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
Ffilmiau o Iwerddon.

**Hoff air?**
Ymbalfalu.


**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Bod yn dad ac yn daid.

**Top tip i ddarpar awduron:**
Sgwennwch gan ddefnyddio pensel yn gyntaf.

# Llŷr Titus










**Dwedwch ychydig wrthym am y llyfr?**
Mae *Cymry Balch Ifanc* yn gasgliad o straeon pobl ifanc cwiar o Gymru. Mae'r gyfrol yn rhoi cyfle i ddod i adnabod pob math o bobl ifanc LHDTCRA+ ar draws Cymru, ac mae'r lluniau'n wych hefyd!

**Sut brofiad oedd golygu'r llyfr?**
Hyfryd iawn. Roedd gallu bwrw iddi i olygu llyfr fyddai wedi fy helpu taswn i wedi ei ddarllen pan oeddwn i yn ieuengach yn fraint fawr.

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Geni yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, a fy magu yn Llŷn – a dwi'n byw yno o hyd.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Mi oeddwn i'n hoff iawn o actio, canu, darllen, chwarae gyda fy ffrindiau a sgwennu straeon – doeddwn i ddim yn dda iawn am wneud chwaraeon.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Doedd gen i ddim syniad – dwi wedi bod eisiau bod yn gogydd, milfeddyg, gweinidog a llawer o bethau eraill, a sgwennwr hefyd. Dwi'n lwcus 'mod i'n gallu gwneud mymryn o hynny (a choginio adref!) ar hyn o bryd.

**Beth yw eich diddordebau?**
Dwi'n hoff iawn o gerdded, garddio, rhoi mwythau i'r gath a rhwymo llyfrau hefyd.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Y bobl o fy nghwmpas i, a bwyd da.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Mae agweddau hen ffasiwn pobl at y gymuned LHDTCRA+ yn dân ar fy nghroen i.

**Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Fedra i'm cofio amser lle doeddwn i ddim am sgwennu.

**Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Oes, straeon lleiafrifol gan gynnwys rhai LHDTCRA+, ffuglen wyddonol, ffantasi, ac arswyd.




**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Cymerwch olwg ar be arall sydd allan yna a be sydd wedi dod o'ch blaen, un ai fel ysbrydoliaeth neu er mwyn dechrau meddwl, 'mi fedrwn i wneud yn well na hwnna!'

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn olygydd?**
Awduron. Nhw ydi'r peth gorau yn aml iawn, ond weithiau os ydi'r golygydd a'r awdur yn styfnig mae hi'n gallu mynd yn drafodaeth reit frwd...

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Taid a'r Sosej*.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Samuel Vimes, o gyfres The Watch gan Terry Pratchett.

**Hoff le?**
O flaen tân efo'r gath.

**Hoff fwyd?**
Mae hi'n dibynnu ar y diwrnod. Cinio Dolig, falla.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
Unrhyw beth gan Studio Ghibli.

**Hoff air?**
'Sbeuna' – gair Pen Llŷn am chwilota neu dyrchu drwy ddroriau; dyna fydda i'n ei wneud wrth sgwennu a golygu yn aml iawn.

**Superpower o ddewis?**
Gallu ymddangos yn unrhyw le y baswn i eisiau – mi arbedith ffortiwn i mi ar bres petrol!

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Does yna'r un ohonyn nhw'n gall iawn, yn anffodus.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Gweld y dyddiau'n mynd yn hirach ar ôl y gaeaf.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Garddwr.

**Top tip i ddarpar olygyddion:**
Cofiwch ddarllen, cofiwch wrando a thrafod.

# Megan Angharad Hunter









**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Geni yng Nghaerdydd a magu ym Mhenygroes, Dyffryn Nantlle.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Bro Lleu (cynradd) ac Ysgol Dyffryn Nantlle (uwchradd).

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i'n mwynhau Eisteddfod Ysgol Dyffryn Nantlle yn ofnadwy, a'r ymdeimlad o gymuned mewn ysgol mor fach. Ro'n i'n casáu gwersi ymarfer corff a'r ciw cinio!

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Awdur.

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?**
Mi oeddwn i wrth fy modd efo cyfresi Warrior Cats, Harry Potter a llyfrau Michael Morpurgo.

**Beth yw eich diddordebau?**
Darllen, pobi, ffilmiau, treulio amser efo anifeiliad, cerdded yn y mynddoedd, cerddoriaeth (gwrando a chwarae – ffliwt, sacsoffon, piano, gitâr).

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Bwyd, mwy o fwyd, sgwennu, chwerthin efo ffrindiau a theulu, a llenwi fy nyddiau efo'r celfyddydau.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Y newyddion a phob math o anghyfiawnder.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Pan wnes i ddechrau darllen er mwyn pleser ar fy mhen fy hun... felly pan o'n i tua 4 oed!

**Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Iechyd meddwl, y cymunedau LHDTC+ ac anabl (dwi'n aelod o'r ddwy gymuned), cyfeillgarwch a'r celfyddydau.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau ydi'r broses o ddod i nabod y cymeriadau a'r wefr o fethu stopio sgwennu tan oria mân y bore. Y peth gwaethaf ydi'r unigrwydd – ti fel arfer yn gweithio ar dy ben dy hun. Dwi hefyd wastad yn ansicr am fy ngwaith... dwi byth yn gwybod os ydi o'n dda neu beidio nes bod rhywun dwi'n ei drystio wedi darllen y gwaith a rhannu'u barn efo fi.

## Cwestiynau Cyflym

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Lyra o'r cyfresi His Dark Materials a The Book of Dust.

**Hoff le?**
Mynyddoedd Eryri, siopau llyfrau, a sinema canolfan Chapter yng Nghaerdydd.

**Hoff fwyd?**
Dwi'n hoff iawn o fwyd Eidalaidd, Thai, Fietnamaidd... ac unrhyw beth siocled.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
Eto – CWBL amhosib dewis! Ond fy hoff ffilmiau diweddar yw *Barbie, Past Lives* a *Bones and All*.

**Hoff air?**
Bendigedig.

**Superpower o ddewis?**
Troi'n anweledig.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Dwi erioed wedi bod yn 'hoff' o gyfryngau cymdeithasol, a bod yn onest.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Unrhyw beth – *voice note* gan ffrind, bwyd da, darganfod cân newydd, bore braf.


**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Meddyg neu gerddor.

**Top tip i ddarpar awduron:**
Os wyt ti'n mwynhau sgwennu, jyst sgwenna – dwi'n addo i chdi y bydd rhywun arall yn mwynhau darllen dy waith os wyt ti'n mwynhau'r broses o sgwennu'r gwaith hwnnw. A meddylia am dy hoff lyfrau... beth wyt ti'n eu hoffi amdanyn nhw? Be sy'n eu gwneud nhw mor dda? Tria efelychu'r elfennau hynny yn dy waith dy hun.

# Mari Philips










**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Sir Benfro.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Preseli.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Hoffi gweld fy ffrindiau pob dydd ond yn casáu Mathemateg.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Fi wastod wedi eisiau bod yn ddarlunydd!

**Beth yw eich diddordebau?**
Darlunio, gwrando i bodlediadau a siopa.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Eistedd o flaen y teledu gyda phaned yn sgetsio mewn llyfr braslunio.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Dim 'beth' ond 'pwy' – Donald Trump.


**Pryd ddechreusoch chi feddwl am fod yn ddarlunydd?**
Ers 'mod i'n merch fach. Roedd fy hen dad-cu yn arlunydd felly dwi'n meddwl mai mynd draw i'w dŷ e wnaeth fy ysbrydoli i.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Gallaf gael syniad o bodlediad, llyfr neu ffilm. Rwy'n cefnogwr mawr o'r cyfryngau ac yn credu gall ysbrydoliaeth ddod o unrhyw beth.

**Oes yna themâu / pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Chwedloniaeth, llên gwerin a hanes sydd yn apelio ataf fwyaf. Rwyf wastod wedi ymddiddori yn y profiad dynol, a hefyd cario clecs. Dwi'n credu bod darllen am hanes rhywun yr un peth â gwrando ar rywun yn cario clecs, haha!

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio darlunio?**
Gwnewch un darlun bob dydd. Falle darlun llawn lliw neu fraslun bach yn eich llyfr. Mae hwn yn ymarfer da i chi greu beth sydd ar eich cof chi ar yr adeg honno. A pheidiwch becso gymaint am beth fydd pobl eraill yn meddwl am eich gwaith!






## Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Charlie and the Chocolate Factory*.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Mike Teevee.

**Hoff le?**
Fy soffa.

**Hoff fwyd?**
Spaghetti 'bolaneis'!

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
*The Lost Boys*.

**Hoff air?**
Lysh.

**Superpower o ddewis?**
Bod yn anweledig.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Maen nhw i gyd yn ofnadwy (ond mae 'na fideos doniol ar TikTok!).

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Mwncis!

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Triniwr gwallt.

**Top tip i ddarpar olygyddion:**
Gwnewch beth bynnag ry'ch chi eisiau ond gwnewch yn siŵr eich bod chi'n aros yn driw i chi'ch hun.

# Y Beirniaid








**Sioned Dafydd**
*Cadeirydd y Panel*

Mae gen i atgofion melys o wrando ar straeon yn cael eu darllen i fi pan o'n i'n blentyn. Yn ysgol Felin-fach ac yna Ysgol Aberaeron, doedd dim yn well na chael treulio gwers yn llyfrgell yr ysgol a'r ffefrynnau yr adeg honno oedd *Cysgod y Cryman* gan Islwyn Ffowc Elis a'r *Wisg Sidan* gan Elena Puw Morgan.

Fel mam i Lewys a Cadi, sydd bellach yn eu harddegau, dwi wedi mwynhau rhannu llyfrau gyda nhw, hyd yn oed pan oedd rhaid darllen *Cacen Sali Mali* am y canfed tro! Dwi hefyd wedi cael fy nghyflwyno i awduron ganddyn nhw, ac mae nofelau Manon Steffan Ros yn plesio pawb yn y teulu.

Dwi wrth fy modd pan mae fy hoff awduron yn cyhoeddi llyfr newydd, ond dwi hefyd yn cael blas mawr ar ail droi dalennau llyfr cyfarwydd, llyfrau sydd fel hen ffrindiau rydych chi'n cadw mewn cysylltiad â nhw. Dwi'n grediniol bod ymgolli mewn llyfr da yn un o bleserau mwyaf bywyd.



**Rhys Dilwyn Jenkins**
*Adolygydd llyfrau ac aelod o glwb darllen*

Roeddwn i'n mwynhau darllen yn arw pan oeddwn i'n iau. Wedyn roedd prysurdeb fy mywyd gwaith yn golygu nad oeddwn i'n gadael llawer o amser i ddarllen, ond fe wnaeth cyfnodau cynnar y pandemig ailgynnau'r sbarc hwnnw. Oherwydd hynny, creais gyfrif Instagram lle dwi'n ysgrifennu adolygiadau dwyieithog o lyfrau Cymraeg a Saesneg. Mae hi mor hyfryd cael rhannu fy hoff lyfrau â phobl.

Ymunais â chlwb Llyfrau Lliwgar yng Nghaerdydd yn ddiweddar, lle rydyn ni'n trafod llyfrau a ysgrifennwyd gan amrywiol awduron, ac mae themâu allweddol y storïau hyn yn canolbwyntio ar faterion LHDTC+. Mae'n brofiad hyfryd cael trafod y storïau hyn yn agored ac yn onest gyda grŵp mor gyfeillgar, ac mae'n wych cael darllen llyfr na faswn i'n bersonol wedi ei ddewis fel arall.

Mae'n fraint cael fy ngwahodd i fod ar banel beirniaid Gwobrau Tir na n-Og eleni, a dwi'n edrych ymlaen yn arw at ddarllen yr holl lyfrau a gweld beth sydd gan awduron Cymru i'w gynnig.



**Lisa Markham**
*Rheolwr Llyfrgell*

Dwi wastad wedi caru llyfrau, ac yn gwirioni ar guddio mewn byd dychmygol a chyffrous. Teimlaf fod fy swydd fel rheolwr llyfrgell Tywyn ers 25 mlynedd wedi chwarae rhan fawr yn rhoi'r ymdeimlad anhygoel o fodlonrwydd i mi.

Fel ymbarél amryliw, mae'r llyfrgell yn rhoi pob math o brofiadau i mi, ac mae'n miniogi fy awch i fwynhau bywyd. Mae hefyd yn gyfle i roi help llaw i gyflawni breuddwydion pobl eraill o bob oed, a'r cyfle hwn drwy lyfrau sy'n rhoi gwir hapusrwydd imi. Mae llyfrau yn ein galluogi i weld a dysgu llawer mwy am fywyd; mae fel edrych drwy berisgop llong danfor. Boddhad yw croesawu plant y fro yno a cheisio eu cael i fwynhau byd y llyfr.

Yn ogystal, mae darllen wedi fy ysbrydoli i deithio'r byd gyda'm plant ac i ledaenu eu gorwelion. Collais fy mam yn ifanc, ond roedd hi'n ysbrydoliaeth i mi fwynhau diwylliant – cerddoriaeth, llenyddiaeth a hanes. Fe wnaeth hi fy annog i gael y gorau allan o bob dydd, a chofio mwynhau pob eiliad ohono!



**Lleucu Non**
*Myfyriwr gradd MPhil mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Aberystwyth*

Darllen yw un o'm prif ddiddordebau erioed, a'r diddordeb hwn a enynnodd fy nghariad at greu ac ysgrifennu fy straeon fy hun. Fy hoff lyfr pan o'n i'n dair oed oedd *Strempan* o gyfres Rwdlan gan Angharad Tomos ac yn sicr, cyfres Rwdlan a byd Gwlad y Rwla oedd fy ffefrynnau am sawl rheswm. Ymysg y cewri llenyddol o'm plentyndod mae Mary Vaughan Jones, Angharad Tomos, Bethan Gwanas, Jacqueline Wilson, Roald Dahl a Philip Pullman. Dwi'n hoff iawn o wahanol *genres* – o ffantasi i ffuglen wyddonol a rhamant, a dwi'n arbennig o hoff o lyfrau sy'n herio ein ffordd o feddwl!


Pan nad ydw i'n darllen neu'n ysgrifennu, dwi'n mwynhau gwrando ar gerddoriaeth neu fynd i'r sinema a'r theatr. Diddordeb arall sydd gennyf yw gweu, sydd wedi bod yn fodd o ymlacio a therapi i mi, a dwi'n mwynhau gweu pob math o bethau!

Mae'n fraint a hanner cael bod yn rhan o'r panel beirniadu y flwyddyn hon, a dwi'n edrych ymlaen yn arw at ddarllen y llyfrau i gyd.













Trowch ddalennau'r llyfr hwn a dysgu rhywbeth newydd ar bob tudalen. Os ydych chi'n meddwl eich bod yn adnabod Cymru – meddyliwch eto.

Llyfr i'w rannu gydag eraill gan ddweud 'Oeddet ti'n gwybod...?' Bydd hwn yn llyfr i droi ato pan mae gennych ddwy funud sbâr, ond mae'n bur debyg y byddwch yn parhau i droi'r dalennau am dipyn hirach na hynny ar ôl dechrau pori.





Llyfr lliwgar fydd yn cynnig gwybodaeth ddiddorol am Gymru a gweddill y byd.

Clamp o lyfr ffeithiol gydag ôl gwaith ymchwil trylwyr am bynciau pwysig megis daeareg, cynhesu byd-eang ac economi. Mae'n llyfr sydd yn ein hannog i ymfalchïo yn ein cynefin a'n Cymreictod. Bydd hwn yn sicr o ddysgu pethau newydd i blant ac i oedolion.

# Sylwadau'r Beirniaid











O'r bennod gyntaf, mae'r stori yn dal yn dynn yn ein calon. Mae'r hanes yn dod yn fyw o'i brofi ochr yn ochr gyda'r cymeriadau.


Dyma glasur modern sydd yn ein dysgu am ein hanes ni ein hunain ac yn ein difyrru gyda stori dda yr un pryd.




Mae Myrddin ap Dafydd yn awdur sy'n gallu cydio yn nychymyg y darllenydd a'i dywys drwy stori dda iawn.

Mewn llai na dau gan gair, rydw i wedi dod i adnabod cymuned yr Wyddgrug yn dda ac wedi dod i ddysgu llawer am hinsawdd yr ardal ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma gyfrol a stori grefftus, ddwys (mewn ffordd dda!) a chelfydd. Un o weithiau gorau Myrddin ap Dafydd, yn fy marn i.


# Sylwadau'r Beirniaid





Llyfr pwysig i bawb er mwyn dod i adnabod ein hunain ac adnabod pawb arall. Bydd pobl ifanc sydd yn ceisio darganfod eu hunaniaeth yn elwa o glywed am brofiadau'r cyfranwyr, a bydd rhieni, athrawon, neiniau a theidiau, gwleidyddion – pawb – yn cael cyfle i ddysgu bod hawl gan bawb i gael eu deall a'u parchu fel unigolion.

Dyma gyfrol sy'n delio â phynciau trwm yn ysgafn, ac yn dangos y drwg a'r da o'n cymdeithas yn trin aelodau o'r gymuned LHDTCA+.




Braf oedd gallu darllen straeon gan amrywiol leisiau gyda darluniadau hyfryd yn cyd-fynd â nhw.

Mor braf oedd cael gweld y pynciau hyn yn cael eu trafod drwy gyfrwng y Gymraeg! Boed ar gyfer rhywun o'r gymuned neu ar gyfer rhywun sydd eisiau dysgu, dyma gyfrol o driniaethau aeddfed, sensitif ac agored.


# Tudalen Nodiadau




**Defnyddiwch y dudalen hon ar gyfer unrhyw nodiadau hoffech chi eu hysgrifennu am y llyfrau.**
*Llungopïwch y dudalen yma i bob adolygwr.*




☆☆☆☆☆





☆☆☆☆☆





☆☆☆☆☆

# Matrics Sgorio





**Efallai bydd sgorio'r llyfrau yn eich helpu i benderfynu pa lyfr yw'r gorau yn eich barn chi.**

| **Llyfr** | |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| **Clawr / Broliant**<br>Ydych chi'n hoffi'r clawr?<br>Ydi'r broliant yn eich denu i ddarllen y llyfr?<br>Ydi'r clawr yn eich denu? | **/5** | | | |
| **Diwyg / Edrychiad**<br>Ydych chi'n hoffi'r darluniau yn y llyfr?<br>Ydi'r darluniau yn ychwanegu at y stori?<br>Pa fath o ddarluniau mae'r awdur wedi eu defnyddio? e.e. chwareus, cyffrous, diddorol.<br>Ydych chi'n hoffi ffont y geiriau? Pa fath o ddarluniau mae'r awdur wedi eu defnyddio? e.e. chwareus, cyffrous, diddorol. | **/5** | | | |
| **Arddull / Iaith**<br>Pa fath o iaith mae'r awdur wedi ei defnyddio? e.e. tafodiaith, disgrifiadau, odlau.<br>Wnaethoch chi ddysgu unrhyw eiriau newydd wrth ddarllen y llyfr?<br>Oedd yr iaith yn rhy hawdd neu'n rhy anodd?<br>Oeddech chi'n deall yr iaith?<br>Oedd yr iaith yn ddiddorol? | **/5** | | | |
| **Cynnal diddordeb**<br>Wnaethoch chi fwynhau'r llyfr?<br>Beth oedd yn cynnal eich diddordeb? e.e. doniolwch, antur, cymeriadau, gwybodaeth<br>Oeddech chi'n awyddus i ddarllen y llyfr i gyd?<br>Ydi'r llyfr yn mynd i aros yn eich cof?<br>Ydi'r llyfr yn un gwreiddiol? | **/5** | | | |
| **Cymeriadau**<br>Pa fath o gymeriadau oedd yn y llyfr?<br>Oedd y cymeriadau yn rhai diddorol / credadwy?<br>Sut fyddech chi'n disgrifio'r cymeriadau?<br>Oedd y cymeriadau yn apelio atoch?<br>Oeddech chi'n gallu uniaethu â'r cymeriadau? | **/5** | | | |
| **Cyfanswm** | **/25** | | | |

# Cardiau Pleidleisio






Nawr eich bod chi wedi darllen a thrafod y llyfrau sydd ar restr fer gwobr Tir na n-Og 2025, dyma'ch cyfle chi i bleidleisio dros y llyfr gorau, yn eich barn chi. Rhowch **X** yn y bocs i nodi'ch enillydd chi.

**Peidiwch â cholli eich cyfle i fod yn feirniaid answyddogol trwy bleidleisio yng nghategori Barn y Darllenwyr: tlws arbennig sy'n cael ei ddyfarnu gan blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Cysgodi Tir na n-Og.**

Dilynwch y ddolen yma i bleidleisio: https://www.surveymonkey.com/r/N25QC6Z

## Cerdyn Pleidleisio

| | |
|---|---|
| **Cynefin, Cymru a'r Byd** | ☐ |
| **Rhedyn, Merlyn y Mawn** | ☐ |
| **Cymry Balch Ifanc** | ☐ |

## Cerdyn Pleidleisio

| | |
|---|---|
| **Cynefin, Cymru a'r Byd** | ☐ |
| **Rhedyn, Merlyn y Mawn** | ☐ |
| **Cymry Balch Ifanc** | ☐ |

## Cerdyn Pleidleisio

| | |
|---|---|
| **Cynefin, Cymru a'r Byd** | ☐ |
| **Rhedyn, Merlyn y Mawn** | ☐ |
| **Cymry Balch Ifanc** | ☐ |

## Cerdyn Pleidleisio

| | |
|---|---|
| **Cynefin, Cymru a'r Byd** | ☐ |
| **Rhedyn, Merlyn y Mawn** | ☐ |
| **Cymry Balch Ifanc** | ☐ |

2025

Beth am rannu eich profiad cysgodi ar y cyfryngau cymdeithasol?

Cofiwch dagio ni:
**@LlyfrDaFabBooks**
a defnyddiwch
yr hashnodau:
**#CaruDarllen**
**#TNNO2025**
**#CysgodiTNNO2025**

Tir na n-Og
GWOBRAU • AWARDS

#CaruDarllen

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES